Chwythu balwnau – Y Pentecost (Y Sulgwyn)

Cysyniadau: **Gwerthfawrogi, cefnogi a chalonogi.**

Amcan: **Pwysigrwydd calonogi a chefnogi.**

Cyfarpar: **Tair neu bedair balŵn.**

Cyflwyniad:

● Cyfeirio at ddau neu dri o'r plant sydd wedi gwneud yn dda yn ystod yr wythnos, e.e. tystysgrif am nofio, sgorio gôl i'r tîm, wedi helpu rhywun. Canmol a dangos cymeradwyaeth gan yr ysgol gyfan.

● Dangos un balŵn (heb ei chwythu) – mor llipa mae'n edrych. Byddai tipyn o galondid yn help. Dechrau chwythu'r balŵn. Mae'r balŵn yn cymryd siâp wrth ei llenwi ag aer. Ninnau 'run fath, mae tipyn o gefnogaeth yn gymorth i ni fagu hyder. Mae dweud 'da iawn' yn bwysig.

● Annog y plant i feddwl am eiriau ac ymadroddion sy'n rhoi hyder i ni, e.e. 'da iawn', 'ardderchog', 'bendigedig', 'grêt', 'paid â phoeni', 'un cyfle eto', 'cynnig ardderchog', 'paid â bod ofn', 'cynnig arall arni', 'mi ddo i efo ti', 'mi wnawn ni efo'n gilydd'.

● Ar ôl chwythu'r balŵn gyntaf, mynd ati i chwythu'r ail falŵn. Nid ni'n unig sydd angen cefnogaeth ond eraill hefyd. Sut medrwn ni gefnogi eraill? 'Dal ati', 'paid â diffygio', 'tro arall arni', 'mi wna i dy helpu di'.

● Atgoffa'r plant y gall geiriau a dywediadau negyddol fod yn niweidiol iawn, e.e. 'Dwyt ti'n da i ddim', 'Mi wyt ti'n stiwpid', 'Paid â bod mor wirion'.

● Gollwng ychydig o'r aer o'r balŵn a dweud bod angen i ni gefnogi a chalonogi ein gilydd. Dangos sut mae'r balŵn yn edrych pan fo'r aer wedi mynd ohoni.

Trafodaeth bellach:

● Egluro arwyddocâd y Pentecost neu'r Sulgwyn. Pentecost yn golygu 50 diwrnod ar ôl Gŵyl y Pasg. Roedd Iesu wedi addo y byddai ei ddisgyblion yn derbyn yr Ysbryd Glân sef yr un fyddai'n eu helpu a'u calonogi. A dyna ddigwyddodd. Daeth y disgyblion at ei gilydd ac fel hyn mae Luc yn dweud yr hanes:

Roedd Jerwsalem, y brifddinas, yn orlawn o bobl o bob rhan o'r byd. Roedden nhw yno ar gyfer gŵyl y Pentecost.

Roedd ffrindiau Iesu yn eistedd gyda'i gilydd mewn un ystafell pan, yn sydyn, daeth sŵn fel gwynt nerthol gan chwythu drwy'r ystafell a'i llenwi. Ymddangosodd fflamau o dân fel petaen nhw'n llosgi yn yr awyr, gan gyffwrdd â phob un oedd yno. Wrth i'r Ysbryd Glân gyffwrdd y bobl, dechreuodd pawb siarad mewn ieithoedd gwahanol.

Tyrrai pobl o bob cwr i weld beth oedd yn digwydd yn y tŷ.

'Beth sy'n digwydd?' gofynnodd un ohonyn nhw. 'Rydw i'n deall yn iawn beth mae'r bobl yma'n ei ddweud. Maen nhw'n siarad fy iaith i am Dduw. Sut mae hynny'n bosibl?'

'Wedi meddwi maen nhw!' crechwenai eraill.

'Na, dydyn ni ddim,' meddai Pedr, gan gamu ymlaen i siarad â'r bobl. 'Dim ond naw o'r gloch y bore ydi hi!' Safodd Pedr ar ei draed i egluro beth oedd yn digwydd.

Yn gyntaf, atgoffodd Pedr nhw o'r hyn roedd y proffwydi wedi'i ddweud am Iesu, amser maith yn ôl. Soniodd am Iesu, mab Duw, yr un oedd wedi'i ddewis gan Dduw, y Meseia. Pan soniodd Pedr sut cafodd Iesu ei ddal, ei guro ac yna'i ladd, roedd y bobl yn teimlo'n drist iawn.

'Beth fedrwn ni wneud?' gofynnodd rhai ohonyn nhw.

'Mae'n rhaid i chi roi'r gorau i'ch arferion drwg a chael eich bedyddio,' meddai Pedr. 'Os gwnewch chi hyn, bydd Duw yn maddau

i chi ac fe fyddwch yn derbyn yr Ysbryd Glân fel y gwnaethon ni.'

Y diwrnod hwnnw, daeth tair mil o bobl yn ddilynwyr newydd i Iesu. Bu'r apostolion wrthi'n brysur yn gwella pobl yn enw Iesu ac yn cyfarfod â ffrindiau eraill Iesu i addoli Duw, i weddïo ac i rannu'r hyn oedd ganddyn nhw gyda'i gilydd. Beibl Lliw Stori Duw t. 278

Trafodaeth bellach:

● Mae ffrindiau Iesu yn derbyn nerth newydd. Mae'r Pentecost neu'r Sulgwyn yn ein hatgoffa o gychwyniad yr eglwys neu'r cynulliad newydd. Dyma ben-blwydd yr Eglwys Gristnogol.

● Mae ffrindiau Iesu yn cefnogi ei gilydd.
Maen nhw'n gweithio fel tîm:
(i) Maen nhw'n cefnogi ei gilydd.
(ii) Maen nhw'n mwynhau bod efo'i gilydd.
(iii) Maen nhw'n rhannu popeth ymhlith ei gilydd.
(iv) Maen nhw'n dal ati efo'i gilydd.
(v) Maen nhw'n teimlo fel un teulu.
(vi) Maen nhw'n gweddïo ac addoli efo'i gilydd.
(Mae'r nodweddion hyn i'w gweld yn Actau 2: 42–47.)

Emyn: Rhaid bod 'na fwy na hyn: Canu Clod 360

Dyfyniad o'r Beibl:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll! 2 Corinthiaid 13:13 BCND

Munud i feddwl:

'Ni ddaw heddiw byth yn ôl. Cefnogwch rywun heddiw. Byddwch yn ffrind da i bawb.' 'Peidiwch â chwilio am feiau, chwiliwch am y gorau ym mhawb.'

Myfyrdod/Gweddi:

O Dad, wnei di'n helpu ni i gefnogi'r naill a'r llall a hynny er mwyn i ni dyfu'n hyderus a darganfod ein hunain o'r newydd? Amen.